SPORTY. GAY.
YOU CAN BE BOTH.
HEINI. HOYW.
GALLWCH FOD Y DDAU.

SPORT CHARTER

Lesbian, Gay, Bisexual and Transgender Equality in Welsh Sport

Our vision is to create a thriving lesbian, gay, bisexual and transgender (LGBT) sporting community within Wales, where individuals feel welcome, safe and free from discrimination.

We believe that everyone should be able to participate in, and enjoy sport, whoever they are and whatever their background and as such we commit to:

Encouraging and supporting current and future generations of fans, officials, volunteers, coaches, staff and participants from all communities to join the sporting family by:

1 – Promoting positive relations within our sporting community, breaking down barriers and encouraging cohesion by supporting LGBT issues within our own and other sports

2 – Engaging with the LGBT community and breaking down barriers to participation by championing the benefits of our own and other sports

3 – Working on equality initiatives, including sexual orientation to raise awareness and increase understanding of LGBT issues in sport amongst fans, officials, volunteers, coaches, staff and participants

4 – Encouraging and sharing good practice within our own sport, other sports, education and employment

5 – Supporting and proactively contributing to the work of the LGBT Sport Network. Feeding back on relevant policy, practice and initiatives relating to the equality and diversity agendas in our own sport or sport as a whole

But most importantly:

We commit to taking a zero tolerance approach to homophobia, biphobia and transphobia in our own sport and other sports, whether in the stands, during competition or amongst officials, coaches, staff and volunteers. The message is simple...

HOMOPHOBIA, BIPHOBIA AND TRANSPHOBIA IN SPORT IS UNACCEPTABLE

SIARTER CHWARAEON

Cydraddoldeb i Bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol mewn Chwaraeon yng Nghymru

Ein gweledigaeth ni yw creu cymuned chwaraeon lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LHDT) ffyniannus yng Nghymru, lle mae unigolion yn teimlo bod croeso iddynt ac yn teimlo'n ddiogel rhag unrhyw fath o wahaniaethu yn eu herbyn.

Rydym yn credu y dylai pawb allu cymryd rhan mewn chwaraeon a'u mwynhau, pwy bynnag ydyn nhw a beth bynnag yw eu cefndir. Felly, rydym wedi ymrwymo i'r canlynol:

Annog a chefnogi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o gefnogwyr, swyddogion, gwirfoddolwyr, hyfforddwyr, staff a chyfranogwyr o bob cymuned i ymuno â'r teulu chwaraeon drwy wneud y canlynol:

1 – Hybu cysylltiadau cadarnhaol yn ein cymunedau chwaraeon, goresgyn rhwystrau ac annog cydlyniant drwy ddangos cefnogaeth glir i gydraddoldeb LHDT yn ein camp ein hunain ac mewn chwaraeon eraill

2 – Ymgysylltu â'r gymuned LHDT a goresgyn y rhwystrau sy'n atal cymryd rhan drwy hyrwyddo manteision ein camp ein hunain a chwaraeon eraill

3 – Gweithio ar fentrau cydraddoldeb, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol, i greu mwy o ymwybyddiaeth a gwell dealltwriaeth o faterion LHDT mewn chwaraeon ymhlith cefnogwyr, swyddogion, gwirfoddolwyr, hyfforddwyr, staff a chyfranogwyr

4 – Annog a rhannu arferion da yn ein camp ein hunain ac mewn chwaraeon eraill, addysg a chyflogaeth

5 – Cefnogi a mynd ati'n rhagweithiol i gyfrannu at waith y Rhwydwaith Chwaraeon LHDT. Rhoi adborth ar bolisïau, arferion a mentrau perthnasol sy'n gysylltiedig ag agendâu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein camp ein hunain neu yn y byd chwaraeon yn gyffredinol

Ond, yn bwysicach na dim:

Rydym wedi ymrwymo i bolisi o ddim goddefgarwch i homoffobia, deuffobia a thrawsffobia yn ein camp ein hunain ac mewn chwaraeon eraill, boed yn y standiau, yn ystod cystadleuaeth neu ymysg swyddogion, hyfforddwyr, staff a gwirfoddolwyr. Mae'r neges yn syml...

MAE HOMOFFOBIA, DEUFFOBIA A THRAWSFFOBIA MEWN CHWARAEON YN ANNERBYNIOL

Stonewall CYMRU

sportwales chwaraeoncymru